

Cyngor ar gyllid SSCE Cymru

Diweddarwyd: Awst 2023

Awduron: Tîm SSCE Cymru

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn darparu cyngor gan dîm SSCE Cymru i ysgolion ac awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid i gefnogi Plant y Lluoedd Arfog / cymuned leol y Lluoedd Arfog.

Cyngor cyffredinol yw hwn ac nid yw'n benodol ar gyfer unrhyw ffrwd ariannu benodol.

Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys rhestr wirio o gamau gweithredu a awgrymir i helpu wrth baratoi a chwblhau ffurflen gais am gyllid a rhestr o syniadau/awgrymiadau am gyllid.

Mae gwybodaeth am y rhaglenni ariannu presennol sydd ar gael i gefnogi plant y Lluoedd Arfog ar gael ar [wefan SSCE Cymru](#).

Cyngor

CYN – deall anghenion plant y Lluoedd Arfog ac ymchwilio i opsiynau cefnogaeth/cyllid

- Ymgysylltwch â'ch [Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol](#) SSCE Cymru – i ddysgu am yr amrywiol adnoddau, [offer](#) a chefnogaeth sydd ar gael gan SSCE Cymru.
- Gwrandewch ar blant y Lluoedd Arfog i nodi eu hanghenion – ystyriwch weithio gyda [Swyddog Arweiniol Cyfranogiad](#) SSCE Cymru i wneud hyn.
- Ymgynghorwch â chymuned eich ysgol (rhieni/gofalwyr plant y Lluoedd Arfog, staff, llywodraethwyr ac ati) i nodi anghenion plant y Lluoedd Arfog sydd yn eich ysgol yn well – gallai hyn fod drwy ddulliau ffurfiol (e.e. arolygon) neu ddulliau anffurfiol (e.e. trafodaethau).
- Ymgysylltwch â'ch cyswllt/cysylltiadau Lluoedd Arfog lleol a/neu Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog – i ddeall y cyd-destun Lluoedd Arfog lleol.
- Archwiliwch [enghreifftiau o arferion da](#) ar wefan SSCE Cymru i weld sut mae ysgolion eraill yng Nghymru wedi cefnogi plant y Lluoedd Arfog.
- Darllenwch [adroddiadau tystiolaeth SSCE Cymru](#) (o weithgareddau ymgynghori ag ysgolion, plant y Lluoedd Arfog, rhieni/gofalwyr) a [Chynghrair Dilyniant Plant y Lluoedd Arfog – adroddiad Llais Plant y Lluoedd Arfog](#) i sefydlu sut mae anghenion plant y Lluoedd Arfog yn eich ysgol yn cysylltu ag anghenion plant y Lluoedd Arfog ledled Cymru.
- Trafodwch heriau/rhwystrau plant y Lluoedd Arfog yn eich lleoliad gyda'ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol, a nodi ffyrdd o'u goresgyn.
- Gwiriwch pa ffyrdd ariannu sydd ar gael ac sy'n berthnasol i'ch lleoliad (yn seiliedig ar gymhwysedd, amcanion/nodau ac ati) – darllenwch y canllawiau llawn, ac edrychwch ar

astudiaethau achos ac enghreifftiau o lwyddiant ariannu blaenorol, a ddarparwyd gan y gwahanol gyllid cefnogi ([ESF](#), [AFET](#), [AFCFT-FCF](#)).

- Archwiliwch syniadau prosiect gwahanol i sefydlu a chadarnhau'r gefnogaeth fwyaf priodol. Cofiwch:
 - Mae profiadau pob plentyn o'r Lluoedd Arfog yn unigryw, felly efallai na fydd dull cyffredinol o gefnogi eu hanghenion bob amser yn briodol.
 - Efallai y bydd plant y Lluoedd Arfog yn cael profiadau cadarnhaol/unigryw a all wella cymuned eich ysgol.
 - Gall profiadau gwahanol fathau o deuluoedd y Lluoedd Arfog amrywio (e.e. cyn-filwyr, milwyr wrth gefn, y Llynges, yr Awyrlu Brenhinol, y Fyddin).
 - Dylai ceisiadau am gyllid ganolbwyntio ar weithgareddau prosiectau, yn hytrach na chyflogi aelodau o staff. Gall prosiectau gynnwys elfennau o amser staff i gyflawni gweithgareddau'r prosiect, ynghyd â holl gostau eraill y prosiect (e.e. hyfforddiant, adnoddau/deunyddiau).
- Darllenwch yr enghreifftiau a'r syniadau o brosiectau a ariennir isod yn [Atodiad 1](#).
- Gweithiwch gyda'ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol i archwilio opsiynau ar gyfer cael mynediad at gefnogaeth awdurdod lleol priodol – os nad oes cefnogaeth/cyllid ar gael gan yr awdurdod lleol, yna parhewch i ymchwilio i lwybrau eraill.
- Ymchwiliwch i wahanol ffrydiau ariannu i ganfod yr opsiwn mwyaf perthnasol ar gyfer y prosiect arfaethedig – gweler gwefan SSCE Cymru am y [ffrydiau cyllid](#) sydd ar gael.
- Archwiliwch opsiynau ar gyfer cynnwys ysgolion eraill o'ch clwstwr neu awdurdod lleol yn y prosiect a'r cais am gyllid – mae cynigion clwstwr yn dangos ac yn cefnogi arfer da, gwybodaeth a rennir a gwerth am arian.
- Rhannwch eich cynnig cyllid gyda sefydliadau lleol/rhanbarthol perthnasol, e.e., drwy fforymau'r Lluoedd Arfog, er mwyn osgoi dyblygu prosiectau tebyg, nodi cyfleoedd cydweithio, a chael cefnogaeth.

YN YSTOD - ysgrifennu cais am gefnogaeth/cyllid ar gyfer plant y Lluoedd Arfog

Cyngor Cyffredinol

- Ymgysylltu â SSCE Cymru drwy gydol y broses wneud cais am gyllid. Anfonwch ddrafft o'ch cais at eich Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol mewn da bryd (o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad cau), fel y gall ei adolygu a rhoi adborth.
- Adolygwch BOB canllaw ariannu a dogfennaeth ategol **CYN** ac **AR ÔL** ysgrifennu eich cais - i wneud yn siŵr bod eich prosiect yn canolbwyntio ar gynnwys perthnasol, a'i fod yn cysylltu â'r nodau a'r blaenoriaethau ariannu.
- Byddwch yn glir yn y cynnwys, a defnyddiwch iaith sy'n hawdd ei deall – ceisiwch osgoi byrfoddau ac acronymau.

Paratoi eich cais

- Gwiriwch y wybodaeth am y ffrwd ariannu (dyddiadau cau ac ati) – adolygu'r canllawiau llawn.
- Nodwch yr unigolyn neu'r unigolion fwyaf priodol i gefnogi/cwblhau'r cais – gallai hyn fod yn ddull cyfunol, gan gynnwys rheolwr busnes yr ysgol, yr uwch dîm arwain, a'r holl staff addysgu/cefnogi perthnasol.
- Gwnewch gynllun ac amserlen fanwl ar gyfer paratoi a chyflwyno eich cais am gyllid, gan fod yn glir o ran amserlenni a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig.

- Ystyriwch sut mae eich prosiect yn cysylltu â nodau a blaenoriaethau'r ffrwd ariannu yr ydych yn gwneud cais amdani - byddwch yn benodol ac yn glir ynghylch eich amcanion.

Ysgrifennu eich cais

- Byddwch yn ymwybodol o nifer y geiriau ar gyfer pob adran o'r cais.
- Dechreuwch gyda chrynodeb o'r prosiect – byddwch yn glir am eich cynlluniau, pwy fydd y prosiect yn ei gefnogi (plant y Lluoedd Arfog), a'r canlyniadau allweddol.
- Darparwch enghreifftiau penodol o'r heriau y mae plant y Lluoedd Arfog yn eich ysgol/awdurdod lleol yn eu hwynebu (ystyriwch effaith lleoli, symudedd a gwahanu).
- Darparwch dystiolaeth o sut rydych wedi nodi anghenion plant y Lluoedd Arfog. Dylech gynnwys manylion am sut rydych wedi ymgynghori â chymuned eich ysgol (Plant y Lluoedd Arfog, rhieni/gofalwyr, staff ysgol ac ati) a'r hyn rydych wedi'i nodi. **SYLWER:** Ceisiwch osgoi gwneud rhagdybiaethau am anghenion plant y Lluoedd Arfog, ac yn lle hynny, canolbwyntiwch ar eich profiad personol o'r plant a'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw – defnyddiwch [dystiolaeth SSCE Cymru](#) i gefnogi eich arsylwadau eich hun.
- Defnyddiwch dystiolaeth feintiol (e.e. data'r Ysgol a phlant y Lluoedd Arfog, anomaleddau, amrywiadau ac ati) a thystiolaeth ansoddol (e.e., dyfyniadau o drafodaethau) drwy'r cais.
- Archwiliwch gostau'r prosiect a chynnwys dadansoddiad llawn wedi'i gyfrifo'n glir ac yn gywir – bydd hyn yn helpu'r panel cyllido i sefydlu gwerth am arian, a phosibiliadau ariannu rhannol lle bo'n briodol.
- Ystyriwch yr amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect – byddwch yn realistig a byddwch yn benodol gyda'r manylion.
- Dylech gynnwys manylion y gweithgareddau y mae eich ysgol/awdurdod lleol (ALI) eisoes yn eu gwneud i gefnogi plant y Lluoedd Arfog (e.e., cwblhau [Datblygiad Proffesiynol Parhaus SSCE Cymru](#), gweithio tuag at statws [Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog](#) Cymru, cynnal clybiau i blant/teuluoedd y Lluoedd Arfog, dathlu [Mis y Plentyn Milwrol](#)).
- Dylech gynnwys manylion unrhyw gyllid blaenorol yr ydych wedi'i sicrhau i gefnogi plant y Lluoedd Arfog – rhannwch fanylion y canlyniad(au) cadarnhaol, a byddwch yn glir ynghylch sut y bydd y prosiect newydd hwn yn wahanol.
- Dylech gynnwys manylion am sut rydych wedi archwilio opsiynau ar gyfer ariannu'r prosiect hwn (e.e. drwy'r awdurdod lleol), ac esboniwch pam **nad oes** cyllid arall ar gael.
- Dylech gynnwys ffyrdd y bydd y prosiect o fudd i gymuned ehangach yr ysgol, yn ogystal â phlant y Lluoedd Arfog dan sylw.
- Dylech gynnwys manylion gweithio mewn partneriaeth a chydweithio:
 - Cofiwch y bydd amgylchedd ysgol sydd â pherthynas gadarnhaol â chymuned y Lluoedd Arfog o fudd i blant y Lluoedd Arfog a'u cyfoedion.
 - Nodwch sut y byddwch yn cynnwys ysgolion eraill, sefydliadau partner (e.e., elusennau'r Lluoedd Arfog), cysylltiadau'r Lluoedd Arfog, yr awdurdod lleol, a SSCE Cymru yn eich prosiect.
- Dylech gynnwys manylion sut rydych yn bwriadu sicrhau cynaliadwyedd gyda'r prosiect hwn. **SYLWCH:** mae hyn yn bwysig iawn i'r paneli cyllid ei ddeall. Rhowch dystiolaeth o gynaliadwyedd drwy:
 - Nodi ffyrdd o wreiddio arferion da yn yr ysgol/awdurdod lleol – a fydd hefyd yn helpu i ddangos gwerth am arian.
 - Ystyried yr effeithiau byrdymor a hirdymor.
 - Esbonio pa etifeddiaeth y bydd y prosiect yn ei gadael ar ôl.
 - Sicrhau bod cynllun cynaliadwyedd realistig yn cael ei ystyried, gan gynnwys ffynonellau cyllid parhaus (lle bo angen), adnoddau, a chynllunio olyniaeth.
 - Cynnwys esboniad o sut y gallai gwella sgiliau staff fod o fudd hirdymor.

- Cynnwys manylion am sut ceir effaith barhaol ar blant y Lluoedd Arfog sy'n rhan o'r prosiect.
- Manylu ar unrhyw ffrydiau cyllid eraill y mae'r ysgol/awdurdod lleol wedi gwneud cais amdanynt er mwyn i'r gwaith barhau.

- Dylech gynnwys manylion am sut rydych yn bwriadu mesur canlyniadau'r prosiect hwn:
 - Yn y byrdymor a'r hirdymor.
 - Defnyddio dulliau meintiol, e.e. gwell canlyniadau academiaidd, canlyniadau lles, cofnodion ymddygiad, canlyniadau arolygon o ddechrau'r prosiect yn erbyn diwedd y prosiect ac ati.
 - Defnyddio dulliau ansoddol, e.e., dyfyniadau o adborth ffurfiol/anffurfiol, adborth cadarnhaol gan ddisgybl-llysgenhadon a chymuned y Lluoedd Arfog, ymgysylltu â disgyblion ac ati.
 - Defnyddio targedau Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac Amserol (SMART).
 - Mewn perthynas â mesurau lleol a chenedlaethol, e.e., monitro dangosyddion perfformiad academiaidd allweddol yn erbyn disgwyliadau awdurdodau lleol ac addysg Gymraeg (llythrennedd, rhifedd, presenoldeb), cymharu graddau/canlyniadau targed.

COFIWCH: Rydych chi'n rhan o brosiect mwy sy'n ceisio deall anghenion plant y Lluoedd Arfog yn well a beth sy'n gweithio i'w cefnogi - mae monitro felly yn hanfodol.

AR ÔL – monitro a mesur effaith eich prosiect wedi'i ariannu

- Parhau i weithio gyda SSCE Cymru i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus – ceisio cyngor / cefnogaeth yn ôl yr angen.
- Adolygu gweithrediad eich prosiect yn rheolaidd - i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud, a'i fod yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau gwreiddiol y prosiect.
- Rhoi gwybod i bartneriaid y prosiect am gynnydd – i geisio cyngor a nodi cyfleoedd cydweithio pellach.
- Rhannu arfer da gydag ysgolion/awdurdodau lleol eraill – eu cefnogi i ddatblygu syniadau ar gyfer prosiectau ariannu yn y dyfodol.
- Mesur effaith canlyniadau'r prosiect yn rheolaidd – adrodd yn ôl i'r cyllidwyr yn ôl yr angen.
- Gweithredu cynlluniau cynaladwyedd – parhau gyda gweithgareddau ar ddiwedd y cyfnod ariannu.
- Ystyried ffyrdd o ddatblygu'r prosiect ymhellach, ar ôl amserlen bresennol y prosiect, gyda gweithgareddau a chanlyniadau gwahanol/wedi'u haddasu/gwell – ac archwilio opsiynau ar gyfer ariannu'r cam nesaf.

Rhestr wirio

SYLWER: Gweler yr adran cyngor uchod am fwy o wybodaeth am yr holl eitemau ar y rhestr wirio a argymhellir.

CYN – deall anghenion plant y Lluoedd Arfog ac ymchwilio i opsiynau cefnogaeth/cyllid

Cyfeirnod	Camau gweithredu/gweithgareddau	✓
1.1	Ymgysylltu â'ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol SSCE Cymru - trafod heriau/rhwysrau plant y Lluoedd Arfog.	<input type="checkbox"/>
1.2	Gwranddo ar blant y Lluoedd Arfog i nodi eu hanghenion.	<input type="checkbox"/>
1.3	Ymgynghori â chymuned eich ysgol i gael eu safbwynt ar anghenion plant y Lluoedd Arfog yn eich lleoliad.	<input type="checkbox"/>
1.4	Ymgysylltu â'ch Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog lleol.	<input type="checkbox"/>
1.5	Archwilio gwefan SSCE Cymru ac edrych ar yr offer , yr adnoddau, a'r enghreifftiau o arfer da y mae'n eu cynnig.	<input type="checkbox"/>
1.6	Archwilio adroddiadau tystiolaeth SSCE Cymru i wneud cysylltiadau rhwng anghenion plant y Lluoedd Arfog yn eich lleoliad, ac anghenion plant y Lluoedd Arfog ledled Cymru.	<input type="checkbox"/>
1.7	Ymchwilio i opsiynau ariannu ar wefan SSCE Cymru .	<input type="checkbox"/>
1.8	Penderfynu ar eich syniad am brosiect (beth i'w ariannu).	<input type="checkbox"/>
1.9	Gweithio gyda'ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol i archwilio opsiynau ar gyfer cael mynediad at gefnogaeth briodol gan yr awdurdod lleol.	<input type="checkbox"/>
1.10	Edrych ar astudiaethau achos ac enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus blaenorol (ESF , AFET , AFCFT-FCF).	<input type="checkbox"/>
1.11	Gofyn i'ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ddangos enghreifftiau i chi o geisiadau llwyddiannus blaenorol am gyllid.	<input type="checkbox"/>
1.12	Archwilio opsiynau ar gyfer cynnwys ysgolion eraill o'ch clwstwr/awdurdod lleol yn y prosiect a'r cais am gyllid.	<input type="checkbox"/>
1.13	Rhannu eich cynnig gyda sefydliadau lleol/rhanbarthol perthnasol er mwyn osgoi dyblygu prosiectau tebyg.	<input type="checkbox"/>

YN YSTOD - ysgrifennu cais am gefnogaeth/cyllid ar gyfer plant y Lluoedd Arfog

Cyfeirnod	Camau gweithredu/gweithgareddau	✓
2.1	Darllen yr HOLL ganllawiau ariannu a dogfennaeth ategol yn drylwyr – i sicrhau bod amcanion eich prosiect yn cysylltu â'r nodau ariannu.	<input type="checkbox"/>
2.2	Nodi'r unigolyn neu'r unigolion fwyaf priodol i gwblhau'r cais.	<input type="checkbox"/>

2.3	Gwneud amserlen fanwl ar gyfer paratoi a chyflwyno eich cais am gyllid.	<input type="checkbox"/>
2.4	Ystyried sut mae eich prosiect yn cysylltu â nodau a blaenoriaethau'r ffrwd ariannu yr ydych yn gwneud cais amdani.	<input type="checkbox"/>
2.5	Dechrau gyda chrynodeb o'r prosiect – byddwch yn glir am y cynlluniau, pwy fydd y prosiect yn ei gefnogi, a'r canlyniadau allweddol.	<input type="checkbox"/>
2.6	Darparu enghreifftiau penodol o'r heriau y mae plant y Lluoedd Arfog yn eich lleoliad yn eu hwynebu.	<input type="checkbox"/>
2.7	Darparu tystiolaeth o sut rydych wedi nodi anghenion plant y Lluoedd Arfog yn eich lleoliad – gyda phwy rydych wedi siarad a beth rydych wedi'i gydnabod.	<input type="checkbox"/>
2.8	Defnyddio enghreifftiau o ddata meintiol ac ansoddol drwy eich cais.	<input type="checkbox"/>
2.9	Archwilio costau'r prosiect – dylech gynnwys dadansoddiad llawn sydd wedi'i gyfrifo'n glir ac yn gywir.	<input type="checkbox"/>
2.10	Ystyried yr amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect – byddwch yn realistig ac yn benodol gyda'r manylion.	<input type="checkbox"/>
2.11	Cynnwys manylion gweithgareddau y mae eich lleoliad/ALI eisoes yn eu gwneud i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.	<input type="checkbox"/>
2.12	Cynnwys manylion unrhyw gyllid blaenorol yr ydych wedi'i sicrhau i gefnogi plant y Lluoedd Arfog a sut y bu hyn yn llwyddiannus.	<input type="checkbox"/>
2.13	Cynnwys manylion am sut rydych wedi archwilio opsiynau ar gyfer ariannu'r prosiect hwn, gan esbonio pam nad oes cyllid arall ar gael.	<input type="checkbox"/>
2.14	Cynnwys ffordd y bydd y prosiect o fudd i gymuned ehangach yr ysgol, yn ogystal â phlant y Lluoedd Arfog dan sylw.	<input type="checkbox"/>
2.15	Cynnwys manylion gweithio mewn partneriaeth a chydweithio (ysgolion eraill, sefydliadau partner, elusennau'r Lluoedd Arfog, yr ALI, SSCE Cymru).	<input type="checkbox"/>
2.16	Cynnwys manylion am sut rydych yn bwriadu mesur canlyniadau'r prosiect hwn - yn y byrdymor a'r hirdymor.	<input type="checkbox"/>
2.17	Cynnwys manylion sut rydych yn bwriadu sicrhau cynaliadwyedd gyda'r prosiect hwn - rhaid ystyried hirhoedledd ac etifeddiaeth.	<input type="checkbox"/>
2.18	Gorffen drafft cyntaf y cais.	<input type="checkbox"/>
2.19	Adolygu fersiwn ddrafft y cais – gwirio bod yr iaith yn glir ac yn gyson.	<input type="checkbox"/>
2.20	Anfon y cais drafft at y Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol, a phartneriaid prosiect perthnasol eraill, am adborth (o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad cau).	<input type="checkbox"/>
2.21	Adolygu POB canllaw ariannu a dogfennaeth ategol cyn cyflwyno eich cais – i wneud yn siŵr bod eich prosiect yn canolbwyntio ar gynnwys perthnasol sy'n cysylltu â'r nodau a'r blaenoriaethau ariannu.	<input type="checkbox"/>
2.22	Gwneud diwygiadau i'r cais yn seiliedig ar adborth gan eich Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol a phartneriaid prosiect.	<input type="checkbox"/>
2.23	Cyflwyno'r cais - a sicrhau eich bod yn cael cadarnhad derbyn.	<input type="checkbox"/>

AR ÔL – monitro a mesur effaith eich prosiect wedi'i ariannu

Cyfeirnod	Camau gweithredu/gweithgareddau	✓
3.1	Os byddwch yn aflwyddiannus – gofyn i'r cyllidwr am adborth ar eich cais, ac ystyried diwygio'ch cais fel y gallwch ailymgeisio yn ystod y rownd ariannu nesaf. <i>Os byddwch yn llwyddiannus, cwblhewch cyf. 3.2 - 3.9 isod.</i>	<input type="checkbox"/>

3.2	Parhau i weithio gyda SSCE Cymru am gyngor a chefnogaeth.	<input type="checkbox"/>
3.3	Adolygu gweithrediad eich prosiect yn rheolaidd – gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.	<input type="checkbox"/>
3.4	Rhoi gwybod i bartneriaid y prosiect am gynnydd.	<input type="checkbox"/>
3.5	Ymgysylltu â'ch Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog lleol.	<input type="checkbox"/>
3.6	Rhannu arfer da gyda lleoliadau/awdurdodau lleol eraill.	<input type="checkbox"/>
3.7	Mesur effaith canlyniadau'r prosiect yn rheolaidd – adrodd yn ôl i'r cyllidwyr yn ôl yr angen.	<input type="checkbox"/>
3.8	Gweithredu cynlluniau cynaladwyedd – parhau gyda gweithgareddau ar ddiwedd y cyfnod ariannu.	<input type="checkbox"/>
3.9	Ystyried ffyrdd o ddatblygu'r prosiect ymhellach – archwilio opsiynau ar gyfer ariannu'r cam nesaf.	<input type="checkbox"/>

Atodiad 1

Syniadau ac awgrymiadau ariannu

Mae'r canlynol yn syniadau/enghreifftiau o weithgareddau y gallai ysgolion ac ALLau eu cynnwys fel rhan o brosiectau a ariennir i gefnogi plant y Lluoedd Arfog. Mae'r awgrymiadau'n seiliedig ar wybodaeth tîm SSCE Cymru ac enghreifftiau o brosiectau ysgol/ALI a fu'n llwyddiannus yn flaenorol.

Prosiectau wedi'u cydlynu

Gallai awdurdodau lleol a/neu ysgolion ystyried cydlynu prosiect a fyddai o fudd i nifer o ysgolion a phlant y Lluoedd Arfog. Gallai prosiectau gynnwys:

- Cydlynu amserlen o weithgareddau ymgysylltu â'r Lluoedd Arfog
- Creu cyfleoedd i ysgolion gydweithio a rhannu arfer da
- Creu adnoddau ar gyfer ysgolion a/neu deuluoedd y Lluoedd Arfog
- Cynnal digwyddiadau ar gyfer ysgolion a/neu deuluoedd y Lluoedd Arfog
- Trefnu prosiect theatr/celf ar gyfer plant y Lluoedd Arfog mewn cydweithrediad â sefydliad lleol
- Trefnu teithiau/ymweliadau ag amgueddfeydd y Lluoedd Arfog.

Amser staffio'r ysgol

Dylai ceisiadau am gyllid ganolbwyntio ar weithgareddau prosiectau, yn hytrach na chyflogi aelodau o staff. Fodd bynnag, gall prosiectau gynnwys elfennau o amser staff i gyflawni gweithgareddau'r prosiect. Gallai hyn gynnwys oriau staff penodedig i:

- Ddarparu hyfforddiant 1:1, sesiynau dal i fyny, cefnogaeth gydag iaith, a/neu ymyriadau pwnc
- Cynnal grŵp meithrin ar gyfer plant y Lluoedd Arfog

- Cynnal y [Cwrs Lles Little Troopers](#)
- Cynnal clwb ar ôl ysgol/amser cinio ar gyfer plant y Lluoedd Arfog (e.e. [Forces Life Club](#))
- Trefnu a chynnal digwyddiadau Lluoedd Arfog ar gyfer teuluoedd
- Mynd i gynadleddau/digwyddiadau/sesiynau hyfforddi sy'n berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog mewn addysg
- Ymgysylltu â deunyddiau SSCE Cymru ([Pecyn Gwaith Ysgolion](#) ac [Offer](#))
- Ymgysylltu â'r [Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer plant y Lluoedd Arfog](#), a chymryd camau priodol yn seiliedig ar sgysiau gyda'r tîm
- Cyflawni statws [Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru](#)
- Cydlynu cyfarfodydd clwstwr ysgolion i rannu arfer da a syniadau am gefnogi plant y Lluoedd Arfog.

Cyrsiau/hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion

Lle nodir anghenion, gall aelodau staff elwa o gymryd rhan mewn hyfforddiant sy'n berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog a'u hanghenion. Gallai'r cyrsiau/hyfforddiant gynnwys:

- Cefnogaeth emosiynol (e.e. [ELSA](#))
- Cefnogaeth lles (e.e. [Thrive](#))
- Cefnogaeth iechyd meddwl
- Cwnsela
- Ymwybyddiaeth Ofalgar
- Adfer wedi trawma
- Ymlyniad
- Therapi (e.e. [Therapi Lego](#)).

Adnoddau

Ystyriwch brynu adnoddau sy'n berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog gyda'u hanghenion academaidd a bugeiliol.

- Gweler [Adnodd 13 SSCE Cymru: Adnoddau a Argymhellir](#) am awgrymiadau o lyfrau priodol, deunyddiau lles, deunyddiau dysgu Cymraeg, ac eitemau i gefnogi sgysiau perthnasol i'r Lluoedd Arfog.
- Mae adnoddau eraill y gallai ysgol ystyried eu prynu yn cynnwys:
 - Adnoddau llythrennedd a rhifedd
 - Adnoddau i gefnogi'r Gymraeg
 - Deunyddiau ar gyfer cynnal clwb ar ôl ysgol/clwb cinio
 - Adnoddau ar gyfer cynnal digwyddiadau teuluol y Lluoedd Arfog
 - Offer Digidol
 - Offer asesu ar gyfer monitro ymddygiad, lles a/neu gyrhaeddiad.
- Gallai cyllid helpu tuag at gyflwyno:
 - Ardal ddysgu awyr agored
 - Ardal les.

Prosiectau/pecynnau sy'n cael eu prynu i mewn

Gall aelodau o Rwydwaith SSCE Cymru (gan gynnwys Forces Fitness, Little Troopers, Never Such Innocence, Your North ac ati) hefyd gynnig pecynnau cefnogi i ysgolion unigol, neu grwpiau o ysgolion, i weithio gyda phlant y Lluoedd Arfog. Cysylltwch â'ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol i gael mwy o wybodaeth.